

Awdurdod Cynllunio Caerdydd

ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2018



ACLI Caerdydd

ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL YNGHYLCH CYNLLUNIO 2017-18

RHAGAIR

Yn y bedwaredd blwyddyn hon o broses yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol, rydym wedi'n calonogi'n fawr wrth weld bod y Gwasanaeth Cynllunio'n parhau i ddatblygu ac ymateb i bwysau fel y dangosir trwy berfformiad sydd wedi gwella ymhellach. Credir bod y canlyniadau perfformiad, yn benodol o ystyried y llwyth gwaith hynod drwm a chymhleth, yn adlewyrchiad rhagorol o ymroddiad a phroffesiynoldeb swyddogion ynghyd â'r systemau arwain a rheoli sydd ar waith.

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn parhau i chwarae rôl allweddol wrth gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor fel a amlinellir yn Uchelgais Prifddinas, rhaglen bolisi'r weinyddiaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf sy'n nodi: "Mae'r weinyddiaeth hon wedi ymrwymo i sicrhau bod Caerdydd yn tyfu mewn ffordd wydn, bod ei chymunedau – y rhai hen a newydd – yn cael eu cynllunio a'u cysylltu'n dda, a bod ei seilweithiau a'i gwasanaethau cyhoeddus yn addas i'r dyfodol."

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn ddiweddar drwy fabwysiadu'r CDLI ym mis Ionawr 2016, gan weithredu fframwaith strategol i helpu i ddarparu a rheoli twf un o ddinasoedd y DU sy'n tyfu gyflymaf.

Rwy'n arbennig o falch bod y gwaith datblygu yn y ddinas yn dod yn ei flaen yn gyflym a'i fod yn cyflawni nodau ac amcanion y CDLI. Mae hyn yn amrywio o ddatblygiadau swyddfa Gradd A o bwys cenedlaethol (gan gynnwys pencadlys newydd y BBC) yng Nghanol y Ddinas, i ddatblygu safleoedd strategol o amgylch y ddinas gan ddilyn y dull uwch-gynllunio a chynllunio seilwaith a nodwyd yn y CDLI. Mae'r llwyth achosion rheoli datblygiadau cyffredinol hefyd yn parhau ar lefelau uchel gyda'r gwasanaeth yn prosesu'r nifer uchaf o geisiadau cynllunio yng Nghymru o bell ffordd.

Y Cynghorydd Caro Wild, Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth
Y Cynghorydd Keith Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio

CYD-DESTUN

1.1 Trosolwg

Caerdydd yw prifddinas Cymru a sbardun economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Rhagfynegir mai hi fydd y ddinas graidd â'r twf canrannol cyflymaf yn y DU gyda phoblogaeth o 362,756 ar hyn o bryd (amcangyfrifon canol blwyddyn swyddogol 2017). Mae tua 80,000 o bobl yn cymudo i'r ddinas bob dydd gan adlewyrchu poblogaeth o 1.5 miliwn ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gyffredinol.

Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio felly ran hanfodol i'w chwarae wrth osod y fframwaith polisi i reoli'r twf hwn, gweithio gydag awdurdodau lleol eraill ar ddimensiynau trawsffiniol, darparu gwasanaeth rheoli datblygu effeithiol er mwyn bwrw ymlaen â datblygiadau priodol yn gyflym a chwarae rhan arweiniol hefyd yn yr agenda o greu lleoedd trwy sicrhau'r ansawdd uchaf posibl mewn datblygiadau newydd.

1.2 Cefndir cynllunio

Mabwysiadwyd CDLI Caerdydd ym mis Ionawr 2016 ac mae'n chwarae rôl allweddol o ran rheoli twf yn y dyfodol. Mae'r cynllun yn nodi sut y gall yr angen ar sail tystiolaeth am gartrefi a swyddi newydd gael ei fodloni mewn dull cynaliadwy sy'n parchu nodweddion amgylcheddol y ddinas. Nodwedd bwysig arall yw ei fod yn gosod fframwaith cynhwysfawr i reoli'r twf trwy sicrhau bod seilwaith cymdeithasol, cymunedol a thrafnidiaeth yn cael ei gyflwyno fesul cam gyda manylion uwch-gynllunio ar gyfer pob Safle Strategol wedi'u sefydlu yn y cynllun.

O ran cyfradd y twf yn y cynllun, gwneir darpariaethau i gyflwyno rhyw 45,415 o gartrefi newydd dros gyfnod y cynllun (2006-2026) gyda mwy na hanner yn cael eu darparu ar safleoedd tir llwyd. Nodwyd wyth Safle Strategol i helpu i ddarparu ar gyfer y twf, gan amrywio o ddatblygiad cyffrous Ardal Fusnes Canol Caerdydd yng nghanol y ddinas i bum safle tir glas ar gyfer tai yn bennaf, gyda chyfanswm o ryw 13,000 o gartrefi newydd gyda fframweithiau uwch-gynllunio yn nodi manylion seilwaith a defnydd arall i gefnogi hyn.

Mae'r cynllun yn cynnwys Fframwaith Monitro arbennig o gynhwysfawr a ddefnyddir fel sail i adrodd yn flynyddol. Mae hefyd yn cynnwys 107 o ddangosyddion monitro CDLI ynghyd â 28 o ddangosyddion arfarniad cynaliadwyedd. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, cymeradwywyd Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) cyntaf y CDLI gan y Cabinet ym mis Medi 2018 cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Hydref. Yn galonogol, mae canfyddiadau cyffredinol yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn gadarnhaol ar y cyfan.

Mae gwaith hefyd yn parhau ar ddiweddarau a pharatoi 30 o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Ategol ar amrywiaeth eang o bynciau a fydd yn gyson â'r fframwaith polisi a nodir yn y CDLI a fabwysiadwyd yn ddiweddar.

1.3 Cyd-destun polisi corfforaethol

Mae gwaith y Gwasanaeth Cynllunio'n helpu'n uniongyrchol i gyflawni blaenoriaethau fel y'u nodir yn 'Uchelgais Prifddinas', sef rhaglen bolisi'r Weinyddiaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf, a fydd yn llywio Cynllun Corfforaethol nesaf y Cyngor yn uniongyrchol.

Mae swyddogaethau'r Gwasanaeth Cynllunio felly wrth wraidd cyflwyno'r blaenoriaethau corfforaethol hyn sy'n cydnabod yr angen am lawer mwy o dwf, ond cyflwyno'r twf hwn mewn modd cynaliadwy sy'n cyfoethogi nodweddion byw ac ansawdd bywyd y ddinas, gan grynhai rôl 'glasurol' y system gynllunio i gydbwysu buddiannau gwahanol a chyflwyno twf mewn modd rheoledig. Mae'r CDLI yn amlwg yn ymateb i'r cyd-destun hwn a bydd, gyda'r canllawiau ategol, yn rhoi'r fframwaith angenrheidiol i gyflawni'r nodau hyn.

1.4 Dylanwadau mawr ar ddefnydd tir ar hyn o bryd ac yn y gorffennol

Ffynnodd Caerdydd yn ystod oes Fictoria ar gefn y diwydiant glo a'r diwydiannau cysylltiol yng Nghymoedd De Cymru. Arweiniodd hyn at godi cyfleusterau dociau yn ne'r ddinas, gyda'r rhain yn dwyn yn eu sgil ddiwydiannau ffyniannus a busnesau mewnforio/allforio. Datblygodd canol y ddinas ryw filltir i'r gogledd ar yr un pryd, a hyn yn adlewyrchu'r cyfoeth a'r hyder newydd. Yn yr oes Edwardaidd cafwyd mwy o enghreifftiau o falchder dinesig gyda datblygu Canolfan Ddinesig Parc Cathays, creu parciau helaeth a 'filâu' moethus yn y maestrefi newydd, a hefyd ardaloedd mawr o dai teras ar gyfer gweithwyr o fewn dwy filltir i ganol y ddinas.

Parhau i ymledu tuag allan wnaeth y ddinas gyda maestrefi newydd yn cael eu datblygu, sef cyfuniad o stadau cyngor wedi'r rhyfel, ac estyniadau trefol newydd preifat. Fodd bynnag, yn sgil dirywiad y diwydiant glofaol yn y cymoedd ac effaith hyn ar y dociau a'r diwydiannau cysylltiedig, mae gwaith adfywio sylweddol wedi cael ei wneud ym Mae Caerdydd a'r cyffiniau. Sefydlwyd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ym 1987 a bu ar flaen y gad gyda rhaglen enfawr o adfywio gan gynnwys Morglawdd Bae Caerdydd.

Creodd hyn llyn dŵr croyw newydd, sydd erbyn hyn yn ganolbwynt i amrywiaeth eang o gynlluniau ailddatblygu a wnaed yn yr ardal.

Heddiw, mae Bae Caerdydd yn gyrchfan ymwelwyr lwyddiannus fyd-eang, ac mae'n gartref i Lywodraeth Cymru a Chanolfan Mileniwm Cymru yn ogystal â llawer iawn o swyddfeydd a fflatiau.

Mae gwaith adfywio sylweddol Bae Caerdydd wedi'i ategu gan ddatblygiad pellach yng nghanol y ddinas, lle mae nifer o brojectau mawr wedi'u cynnal gan gynnwys Stadiwm Mileniwm Cymru a Chanolfan Siopa Dewi Sant 2. Mae hyn wedi helpu i ddirychafu Caerdydd i fod y 6ed canolfan fanwerthu orau yn y DU a dod yn 'brifddinas ddigwyddiadau' sydd ag enw da yn fyd-eang fel y tystiolaethir drwy Gwpan Rygbi'r Byd 2015 a chynnal Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr yn 2017. Mae canol y ddinas a'r Bae felly yn parhau i fod yn brif leoliadau ar gyfer swyddfeydd ac mae cynigion presennol ar gyfer Cyfnewidfa Drafnidiaeth newydd mewn Sgwâr Canolog wedi'i ailddatblygu, gan gynnwys pencadlys newydd i'r BBC a lle swyddfa Gradd A arall, yn cynrychioli'r bennod nesaf yn hanes llewyrchus canol y ddinas.

1.5 Tirwedd a lleoliad hanesyddol

Saif ardal ddinesig Caerdydd o fewn tirwedd sy'n cael ei diffinio'n dda gydag Aber Afon Hafren i'r de, a bryniau a chribau amlwg tua'r gorllewin ac i'r gogledd. Mae'r cefn gwlad sydd o werth tirwedd a bioamrywiaeth arbennig o uchel, gyda Mynydd Caerffili yn 'gefndir gwyrdd' cryf ac amlwg i'r ddinas. Yn groes i hyn, mae ymylon dwyreiniol y ddinas yn rhan o uned dirwedd llawer ehangach o 'wastadeddau' isel – ardal wastad a adferwyd y tu ôl i'r Morglawdd. Mae pedwar coridor sylweddol o le agored sy'n seiliedig ar afonydd Elái, Taf, Rhymni a Nant Fawr yn 'fysedd' o dir hygrych, cyhoeddus i raddau helaeth, sy'n rhedeg trwy'r ardaloedd trefol ac sy'n gyswllt i'r cefn gwlad tu hwnt.

Mae'r ddinas yn cynnwys 27 o ardaloedd cadwraeth a bron 1,000 o adeiladau rhestredig. Mae llawer o ardaloedd diddorol ynghlwm wrth ganol yr hen bentrefi sydd bellach yn rhan o'r ardal drefol; felly hefyd y dreftadaeth Fictoraidd ac Edwardaidd hynod gyfoethog.

1.6 Patrwm anheddu

O ran ehangder daearyddol, mae Caerdydd yn weddol gyfyngedig, a'r ardal drefol sydd amlycaf. Fodd bynnag, mae darnau gwledig helaeth mewn rhai mannau rhwng y ffiniau anheddiad a gweinyddol, yn bennaf tua'r gogledd-orllewin a'r gogledd. Mae pentrefi Sain Ffagan, Creigiau a Phentyrch yn bentrefi annibynnol o fewn ardaloedd gwledig o'r fath i'r gogledd-orllewin o'r ardal drefol.

1.7 Newid poblogaeth a'i ddylanwad ar y CDLI

Mae'r cynllun yn darparu ar gyfer 45,415 o anheddau newydd mewn ymateb i ganllawiau cenedlaethol sy'n cyfeirio at rôl allweddol rhagfynegiadau poblogaeth ac aelwydydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol/Llywodraeth Cymru, sef y man cychwyn ar gyfer pennu lefel briodol y twf o fewn y cynllun. Yn y cyswllt hwn, mae'r CDLI yn rhoi fframwaith strategol i helpu i reoli twf sylweddol yn y boblogaeth dros gyfnod y cynllun. Bydd proses Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLI yn galluogi monitro materion cyflenwi, galw a chyflawni yn ofalus wrth i'r cynllun gael ei roi ar waith.

GWASANAETH CYNLLUNIO

2.1 Strwythurau sefydliadol

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi'i leoli yng Nghyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, sef un o'r 5 cyfarwyddiaeth isod sy'n adrodd i'r Prif Weithredwr:

- Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd
- Pobl a Chymunedau (gan gynnwys Tai a Chymunedau/Gwasanaethau Cymdeithasol)
- Datblygu Economaidd
- Addysg a Dysgu Gydol Oes
- Adnoddau (gan gynnwys Digidol/Cyllid/AD/Llywodraethu a Chyfreithiol)

Mae Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd yn cynnwys amrywiaeth eang o swyddogaethau allanol gan gynnwys Trafnidiaeth, Priffyrdd, Seilwaith, Gwastraff, Ailgylchu, Ynni, Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestru.

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn cynnwys 3 thîm sy'n gweithio yn Neuadd y Sir ac sy'n cael eu rheoli gan y Pennaeth Cynllunio, fel y gwelir yn y crynodeb isod:

- Polisi Cynllunio
- Rheoli Datblygu – Strategol a Chreu Lleoedd
- Rheoli Datblygu – Anstrategol a Gorfodi

2.2 Gweithgareddau sefydliadol ehangach sy'n effeithio ar y Gwasanaeth Cynllunio

Nid yw'r Gwasanaeth Cynllunio wedi'i eithrio o'r pwysau ariannol ehangach a brofir gan y Cyngor ac awdurdodau lleol eraill. Cafwyd nifer sylweddol o ddiswyddiadau dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae tua 20 swydd wedi'u dileu rhwng 2010 a 2015 er mwyn helpu i gyflawni'r arbedion gofynnol. Mae hyn wedi cael effaith amlwg ar adnoddau yn y Gwasanaeth ac mae pwysau sylweddol o hyd ar swyddogion ym mhob tîm. Golyga hyn fod swyddogion yn gweithio i'r eithaf heb unrhyw hyblygrwydd yn y system gan gynyddu'r tebygolrwydd o ddiffygion neu oedi.

Fodd bynnag, dros y tair blynedd diwethaf, gwnaethpwyd y defnydd gorau posib o'r aelodau staff. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n newid trwy'r amser yng nghyd-destun ehangach y pwysau ariannol sy'n wynebu'r awdurdod. Bydd cadw'r nifer priodol o staff i reoli'r llwyth gwaith trwm a chymhleth yn effeithi parhau i fod yn broblem sylweddol i'r Gwasanaeth yn y dyfodol.

2.3 Cyllideb Weithredu

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn hynod heriol o ran gweithredu o fewn disgwyliadau cyllidebol. Fodd bynnag, trwy gyfuniad o leihau staff (fel a grynhowyd yn yr adran uchod), gostyngiadau cyllidebol mewnol eraill, gwelliannau perfformiad ac incwm ffioedd cynyddol, mae'r gwasanaeth wedi gweithredu o fewn y gyllideb.

Yr incwm cyffredinol o ffioedd cynllunio a ffynonellau eraill, megis cyngor cyn gwneud cais a Chytundebau Perfformiad Cynllunio (CPC), oedd £2.4 miliwn yn 2017/18, y swm mwyaf erioed. Yn ogystal, mae'r ffigur hwn mwy neu lai'n talu am holl gostau darparu'r Gwasanaeth Cynllunio a ystyrir bod hyn yn sefyllfa unigryw yng Nghymru gyfan. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth yn gallu

cadw a defnyddio unrhyw arian mwyach trwy ragori ar dargedau cyllidebol, ac nid yw'n gallu rheoli pennu ffigur y targed incwm ar y dechrau neu fel y gellir ei addasu (gynyddu) yn ystod y flwyddyn. Felly, mae ceisio bodloni targedau incwm sy'n cynyddu'n flynyddol yn mynd yn heriol dros ben er gwaethaf monitro misol hynod drylwyr.

Mae ffrydiau incwm ychwanegol posibl yn cael eu hystyried hefyd gyda monitro ariannol hefyd yn sicrhau incwm trwy ddarparu cyngor cyn gwneud cais a Chytundebau Perfformiad Cynllunio (CPC) er y cydnabyddir y gellid rhannu peth o'r incwm hwn â thimau eraill y tu allan i'r Gwasanaeth Cynllunio, gan adlewyrchu natur yr ymrwymiad adnoddau gofynnol.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r gofynion i osod hysbysebion ynglŷn â mathau penodol o geisiadau yn y wasg leol yn arwain at gostau sylweddol. Er enghraifft, yn ystod y 2 flynedd diwethaf cafwyd costau hysbysebu o ychydig dros £87,000 a £97,000. Y gobaith yw y gall Llywodraeth Cymru ailasesu'r gofyniad hwn o gofio bod cyfleoedd digidol eraill ar gael er mwyn arbed arian prin y gellid ei ddefnyddio'n fwy effeithiol i gynnal y gwasanaeth.

Cynhelir cyfarfodydd misol i fonitro cyllidebau rhwng y Pennaeth Cynllunio, Cyllid Canolog a Chyfrifydd y Gyfarwyddiaeth gyda'r nod o fonitro ffigurau blaenu misol yn erbyn targedau cyllidebol a ragwelir. Y newidyn mawr o hyd yw incwm ffioedd cynllunio. Mae rhagor o welliannau wedi'u gwneud yn ystod 2017/18 wrth gasglu mwy o wybodaeth am geisiadau posibl sydd yn yr arfaeth fel bod penderfyniadau cyllidebol yn cael eu llywio gan y wybodaeth orau bosibl.

I'r perwyl hwn, caiff taenlenni crynodol eu paratoi bob mis gan amlinellu incwm hyd hynny a rhagfynegiadau hyd at ddiwedd y flwyddyn, gan gynnwys incwm o gyngor cyn gwneud cais a Cytundebau Perfformiad Cynllunio hefyd. Caiff y gwahanol fathau o gais eu monitro'n ofalus sy'n dangos incwm misol cymharol gyson o du deiliaid tai/ceisiadau bach/eraill ond uchafbwyntiau ac isafbwyntiau mwy amlwg i geisiadau mawr sydd â ffioedd dros £20,000. Yn y pen draw, y ffactorau mwyaf sy'n cyfrannu at yr incwm terfynol yw'r rhai sy'n ymwneud â nifer y ceisiadau mawr dros £20,000 a gyflwynir. Yn 2017/18, roedd y 17 cais mwyaf sylweddol o ran incwm ffi (£26-£248k) yn cyfateb i 50% yr incwm ffi cyffredinol o fwy na 2,600 o geisiadau a dderbyniwyd. Felly, er bod y dulliau o ragfynegi incwm deiliaid tai/ceisiadau bach/arall yn weddol gadarn, mae'n llawer mwy heriol i ragfynegi rôl allweddol incwm a geir o geisiadau mawr er gwaethaf y mesurau monitro helaeth sydd bellach ar waith.

I gloi, mae perygl cynhenid ynghlwm wrth fodloni targedau incwm cyllideb. Er gwaethaf y mesurau monitro cyllidebol trylwyr sydd ar waith, mae targedau incwm yn adlewyrchu pwysau ariannol ehangach yn hytrach na chael eu hysgogi gan amcangyfrifon sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Yn ogystal, mae cyflwyno ceisiadau ynghyd â'u ffioedd yn dibynnu i raddau helaeth ar amrywiaeth eang o ffactorau allanol/marchnad nad oes gan y Cyngor na'r Gwasanaeth Cynllunio fawr dim o reolaeth arnynt. Mae'r sefyllfa gyllidebol hon yn creu cefndir cynyddol ansicr i'r gwasanaeth wrth edrych tua'r dyfodol. Mae hefyd yn creu cyd-destun lle mae'n hynod heriol i fynd i'r afael â phroblemau wrth iddynt godi, megis sicrhau staff dros dro ychwanegol i gyflenwi swyddi gwag dros dro, ac i ymateb i bwysau llwyth gwaith penodol.

2.4 Materion staff

Ar hyn o bryd mae 53.5 swydd CALI yn y Gwasanaeth Cynllunio. Mae mwyafrif llethol y swyddi hyn yn rhai parhaol, wedi'u llenwi ac o fewn y sefydliad ffurfiol, ond mae nifer bach ohonynt yn swyddi ar secondiad neu a ariennir dros dro. Yn ogystal, er mwyn bodloni llwythi gwaith yn y modd mwyaf effeithiol, bu angen diweddar i wella gweithio hyblyg rhwng timau a oedd yn ganlyniad i broses Cynllunio Busnes y Gwasanaeth Busnes. Mae'r rhestr isod yn crynhoi'r swyddi ym mis Ebrill 2018:

- 3 Uwch-reolwr - sef 1 Pennaeth Cynllunio a 2 Reolwr Gweithredol
- 3.5 Cynllunwyr Polisi Cynllunio – Swyddi ychwanegol cyfwerth â 3 Swyddog CLIA yn y tîm sydd ar hyn o bryd yn cynnig cymorth hyblyg fel Swyddogion Achos Rheoli Datblygu Anstrategol
- 20.5 Swyddog Achos Rheoli Datblygu – y mae 5 ohonynt yn y Tîm Strategol, 3 yn amodol ar gyllid dros dro yn y Tîm Strategol, 8 yn barhaol yn y Tîm Anstrategol, cymorth hyblyg gan 4.5 Swyddog CLIA mewn Timau Polisi a Gorfodi
- 1.5 Swyddog Gorfodi – Swyddi ychwanegol cyfwerth ag 1.5 Swyddog CLIA yn y tîm sydd ar hyn o bryd yn cynnig cymorth hyblyg fel Swyddogion Achos Rheoli Datblygu Anstrategol
- 7 Cynlluniwr Tîm Creu Lleoedd (Dylunio, Uwchgynllunio, Projectau, Ardoll Seilwaith Cymunedol/Hyfywedd/A106, Treftadaeth a Chadwraeth)
- 1 Ecolegydd
- 1 Swyddog Coed
- 2 Gynorthwydd Cynllunio (Cofrestru/Dilysu Deunydd Sych, Tystysgrifau Datblygu Cyfreithiol, ymholiadau cynllunio cyffredinol, cefnogaeth apêl)
- ..75 Swyddog GIS
- . 8 Swyddog E-Lywodraeth/Adrodd am Berfformiad
- 2 Fyfyriwr-Gynllunydd
- 1.9 Swyddog Cofrestru
- 1 Swyddog Monitro a Gweinyddu Adran 106
- 7.5 Cynorthwy-ydd Technegol/Gweinyddol – Cyflwyno hysbysiadau penderfynu, llunio llythyrâu ymgynghori a ffeiliau cais newydd, rheoli gwefan yn ddyddiol (gan gynnwys golygu/cyhoeddi pob sylw ar geisiadau), ymholiadau chwilwyr, pwynt cyswllt cyntaf i gwsmeriaid a chydlynu ymatebion i gwynion
- CYFANSWM o 53.5 CLIA

Mae swyddogion yn parhau i fod yn frwd ac yn ymroddedig i roi'r gwasanaeth gorau oll i gwsmeriaid.

Ceir tystiolaeth o hyn gyda'r canlyniadau hynod galonogol o'r arolwg cwsmeriaid sy'n dangos bod perfformiad yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru:

Ymatebwyr a gytunodd â'r canlynol:

	% ACLI Caerdydd	% Cymru
Bod yr ACLI yn gorfodi eu rheolau cynllunio yn deg ac yn gyson	69	55
Bod yr ACLI yn rhoi cyngor da i'w helpu i wneud cais llwyddiannus	81	60
Bod yr ACLI yn rhoi help trwy'r amser, gan gynnwys gydag amodau	69	52
Bod yr ACLI yn ymateb yn brydlon pan oedd ganddynt gwestiynau	72	62
Bod eu cais wedi cael gwrandawriad	81	60
Eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu cais	63	52
Eu bod yn fodlon yn gyffredinol ar sut deliodd yr ACLI â'u cais	84	63

Mae cyfraddau salwch yn isel iawn ac yn is o lawer na chyfartaledd y Gyfarwyddiaeth a'r Cyngor. Mae perfformiad unigol yn cael ei fonitro'n ffurfiol trwy'r broses 'Adolygiad Datblygiad a Pherfformiad Personol' ym mhob rhan o'r Cyngor. Mae disgwyliadau perfformio yn cael eu gosod drwy hon, eu hadolygu'n ffurfiol wedi 6 mis a'u diweddarau bob blwyddyn.

Yn gynyddol, mae'n fwyfwy amlwg bod y gwelliannau perfformiad parhaus fel a welir yn yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn adlewyrchu, i raddau, ymdrech staff sy'n mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau, yn gweithio'n hyblyg dros ben ac yn helpu ei gilydd pan fo angen. Er bod amrywiaeth o fesurau gwella wedi cael eu rhoi ar waith, bu angen ymrwymiad staff ar bob un o'r rhain er mwyn eu gweithredu a'u cyflawni. Er enghraifft, mae trefniad swyddogion polisi sydd bellach yn rheoli llwythi achosion Rheoli Datblygu wedi gwreiddio yn y gwasanaeth gyda swyddogion yn ymgymryd â llwythi achosion Rheoli Datblygu mwyfwy cymhleth, gan gynnwys ceisiadau sy'n mynd gerbron panel apêl. Heb yr ymagwedd hyblyg hon, ni ellid rheoli'r llwythi achosion Rheoli Datblygu trwm yn effeithiol a byddai wedi arwain at ganlyniadau perfformiad sylweddol waeth.

Fodd bynnag, mae peryglon bod gormod o bwysau ar Swyddogion a bod dim hyblygrwydd yn y gwasanaeth sy'n ei adael yn agored i lwyth gwaith gormodol neu brinder swyddogion sydd ar gael. Mae'r ansicrwydd ariannol yn creu rhagor o heriau o ran sicrhau bod digon o staff priodol ar gael i ymdrin â'r llwyth gwaith gyda effaith bosibl ar lefelau perfformiad yn y dyfodol.

EICH STORI LEOL

3.1 Llwyth gwaith: Polisi Cynllunio

Mae mabwysiadu'r CDLI ym mis Ionawr 2016 yn garreg filltir bwysig mewn polisi cynllunio - cymeradwywyd y Cynllun Lleol blaenorol bron 20 mlynedd yn ôl. Felly bydd ymdrechion nawr yn canolbwyntio ar gyflwyno'r cynllun (gan gynnwys paratoi'r Canllawiau Cynllunio Ategol) ynghyd â bodloni'r gofynion monitro a fydd yn helpu i lywio'r broses adolygu cynllunio yn y dyfodol. Gellir crynhoi'r prif feysydd gwaith fel a ganlyn:

- Cydlynu'r gwaith o gyflwyno rhaglen o Ganllawiau Cynllunio Ategol newydd i gefnogi'r CDLI – I raddau helaeth mae rhaglen dreigl yn cynnwys cyfrannau gwahanol o tua 30 o Ganllawiau Cynllunio Ategol bellach wedi cael eu paratoi, wedi bod yn destun ymgynghoriad ac wedi cael eu cymeradwyo
- Trafod cynllunio strategol ar draws ffiniau ar hyd a lled y ddinas-ranbarth
- Paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y CDLI – Bydd yr AMB cyntaf sy'n darparu data am 107 o ddangosyddion CDLI a 28 o ddangosyddion Arfarniad Cynaliadwyedd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2018
- Helpu i weithredu polisiâu o fewn y cynllun trwy drafodaethau â gwasanaethau eraill a phartneriaid allanol
- Paratoi'r Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir Tai blynyddol a monitro defnydd tir arall
- Darparu cyngor cynllunio ar geisiadau cynllunio
- Darparu swyddogaeth Cynllunio Mwynau'r Cyngor
- Gweithio ar brojectau ar draws gwasanaethau ynghylch chwiliadau tir, gwaredu tir a mentrau adfywio

Yn ogystal â'r polisi craidd hwn, mae swyddogion yn y Tîm Polisi hefyd yn ymgymryd â gwaith achos Rheoli Datblygu. Erbyn hyn mae'r ymagwedd hon sy'n deillio o broses cynllun busnes y gwasanaeth wedi'i gwreiddio ymhlith swyddogion sydd bellach yn ymwneud â llwyth gwaith Rheoli Datblygu cynyddol drwm a chymhleth. Mae hyn wedi bod yn hollbwysig yn y gwasanaeth o ran rheoli nifer uchel y ceisiadau a dangos perfformiad gwell. Mae hefyd wedi gwella ystod sgiliau/profiad y swyddogion nad oedd ganddynt unrhyw brofiad Rheoli Datblygu o'r blaen ac wedi gwella sgiliau polisi ymhellach trwy ddealltwriaeth fwy trylwyr o weithrediad y system Rheoli Datblygu yn ymarferol.

3.2 Llwyth gwaith: Rheoli Datblygu a Gorfodi

Mae Caerdydd yn penderfynu ynghylch y nifer uchaf o geisiadau cynllunio yng Nghymru. Yn ystod 2017/18, daethom i benderfyniad ynghylch 2,636 o geisiadau cynllunio. Mae'r llwyth gwaith hwn yn cael ei reoli gan Swyddogion Achos ar draws 2 dîm gyda cheisiadau mawr yn cael eu rheoli yn y Tîm Rheoli Datblygu Strategol a Chreu Lle ac eraill yn y Tîm Rheoli Datblygu Anstrategol. Mae nifer y ceisiadau a bennir gan Swyddogion Achos unigol yn amrywio'n fawr gan adlewyrchu'r gwahaniaethau enfawr rhwng cymhlethdodau ystyried ceisiadau mawr megis estyniadau trefol ar un pegwn i'r raddfa, a chynigion aelwydydd ar y pegwn arall. Fel y nodir yn Adran 3.1 uchod, mae rhywfaint o'r llwyth achos deiliaid cartrefi a masnachol anstrategol bellach yn cael ei reoli gan swyddogion yn y Tîm Polisi i helpu i ymdopi â gofynion llwyth gwaith yn fwy effeithiol.

Mae Swyddogion Achos felly yn pennu hyd at ryw 300 o geisiadau y flwyddyn gyda'r rhai sy'n bwrw ymlaen gyda cheisiadau mawr yn pennu llai o lawer. Mae cefnogaeth ehangach o'r tu mewn i'r gwasanaeth i helpu Swyddogion Achos yn eu swyddi hefyd yn hanfodol i brosesu ceisiadau megis darparu cyngor arbenigol ar faterion megis dylunio a pholisi. Yn bwysig iawn, mae'r Swyddogion Gweinyddu hefyd yn chwarae rhan allweddol oherwydd bod swm enfawr y ceisiadau sy'n cael eu prosesu yn mynnu bod systemau effeithiol ar gael i gadw ceisiadau i lifo'n llyfn trwy'r system a diweddarau'r gwaith o dracio ceisiadau yn rheolaidd ar y wefan.

Gyda'r CDLI wedi'i fabwysiadu yn gosod strategaeth i gyflwyno lefel uchel o dwf ynghyd â gwell hyder yn y farchnad ac amrywiaeth eang o brojectau tir glas a thir llwyd yn yr arfaeth o bosib, ceir llwyth achosion Rheoli Datblygu trwm a chymhleth. Mae ceisiadau mawr amlinellol hybrid hefyd yn arwain at geisiadau sylweddol canlynol sy'n cyfyngu ar nifer y swyddogion sydd ar gael ar gyfer ceisiadau eraill sydd wedi'u cyflwyno. Mae ceisiadau deiliaid tai/bach/eraill yn parhau i gael eu cyflwyno mwy neu lai yn yr un niferoedd ag yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae llwyth gwaith sylweddol a chynyddol nad yw'n cael ei gyfleu drwy ystadegau yn codi yn sgil trafodaethau wedi'r penderfyniad â phartion sydd wedi'u tramgwyddo ac sydd â phroblemau naill ai gyda'r penderfyniad a/neu y broses o ddod i'r penderfyniad. Gall y rhain yn fuan iawn droi'n achosion cymhleth sy'n cymryd amser, gydag Aelodau Lleol yn dod yn rhan o'r peth, gweithdrefn gwyno ffurfiol yn cael ei rhoi ar waith a sylw swyddogion ar bob lefel yn cael ei fynnu.

Creodd ymchwiliadau gorfodi llwyth gwaith o fwy na 300 o achosion yn ystod y flwyddyn. Mae'r Tîm Gorfodi wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf gyda 3 swyddog ar hyn o bryd yn rhannu eu hamser rhwng ymchwiliadau gorfodi a bod yn swyddogion achos rheoli datblygu. Mae llawer o'r gwaith yn ymwneud ag ymateb i gwynion ac arsylwadau a dderbynnir, ond ymgymerir â gwaith/ymchwiliadau rhagweithiol hefyd pan fydd pwysau gwaith arall yn caniatáu hynny.

3.3 Llwyth Gwaith: Creu Lleoedd

Mae'r Tîm Creu Lleoedd yn cyflwyno amrywiaeth eang o swyddogaethau cynllunio statudol ac anstatudol ac mae'n cynnwys arbenigedd mewn meysydd megis dylunio trefol, uwch-gynllunio, cadwraeth yr amgylchedd adeiledig a naturiol, a rheoli projectau.

Mae'r tîm yn cyfrannu'n helaeth at gyflwyno Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd trwy baratoi a gweithredu polisi cynllunio yn ogystal â pharatoi gwaith cefndir o ran egwyddorion uwch-gynllunio a chynllunio seilwaith er mwyn sicrhau bod lefel y twf cynlluniedig yn cyflwyno cymdogaethau integredig, dymunol i fyw ynddynt a fydd yn llesol i'r cymunedau presennol a rhai newydd.

Yn ogystal, mae'r Tîm yn cefnogi'r swyddogaeth Rheoli Datblygu trwy roi cyngor arbenigol ar ddylunio, cadwraeth ac ecoleg ar gyfer ceisiadau cynllunio cyfredol gan gynnwys datblygiadau mawr ar dir llwyd ac estyniadau trefol sylweddol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cydweithio agos â Rheoli Datblygu ac ystod eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.

Mae'r tîm hefyd yn arwain ar yr ymagwedd tuag at Gytundebau Adran 106. Nid oes system Ardoll Seilwaith Cymunedol ar waith ar hyn o bryd wrth aros am ragor o arweiniad gan Lywodraeth Cymru i gyfeirio ystyriaethau pellach. Nod gwaith Adran 106 yw ceisio mesurau lliniaru priodol o ran cynigion datblygu gan gynnwys darparu seilwaith ategol angenrheidiol. Mae ystyried ffactorau hyfywedd yn agwedd bwysig ar y gwaith hwn, gan fod angen cefnogaeth y Prisiwr Rhanbarthol yn aml wrth asesu unrhyw adroddiadau hyfywedd a gyflwynir. Mae menter ddiweddar yn cael ei datblygu i nodi blaenoriaethau seilwaith pob sy'n seiliedig ar Aelodau Lleol yn fwy effeithiol. Gobeithir i'r broses hon fod yn fwy strategol wrth nodi projectau a allai fod yn gymwys ar gyfer arian A106 a bodloni'r 3 phrawf cymhwysedd.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddiweddarau ac adolygu nifer o Ganllawiau Cynllunio Ategol yn y tîm yn dilyn mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd.

Mae mentrau eraill hefyd yn cael eu cyflwyno gan y Tîm Creu Lleoedd gan gynnwys Rhaglen Gwella Treftadaeth Caerdydd, arolygon Adeiladau mewn Perygl, a pharatoi uwch-gynlluniau a briffiau datblygu ar gyfer safleoedd ac ardaloedd penodol y ddinas, yn aml drwy gysylltu â gwasanaethau eraill. Yn ogystal, mae'r tîm yn cynnwys ecolegydd a swyddog coed sy'n helpu i gyflawni swyddogaethau statudol perthnasol a gweithio gyda grŵp seilwaith gwyrdd ehangach ar draws gwasanaethau.

3.4 Pwysau Lleol

Ar draws y Gwasanaeth Cynllunio yn gyffredinol, yr her allweddol yw sut i reoli gofynion a disgwyliadau llwyth gwaith cymhleth yn effeithiol yng nghyd-destun adnoddau cyfyngedig. Yn gysylltiedig â hyn mae nifer mawr y ceisiadau sy'n cael eu prosesu, ynghyd â nifer mawr y cynigion datblygu mawr a chymhleth. Mae'r pwysau ariannol yn cyfyngu'n arw ar y gallu i gynyddu'r sefydliad, felly bydd yr agwedd newydd tuag at wella perfformiad fel a nodir yng Nghynllun Busnes y Gwasanaeth Cynllunio yn canolbwyntio ar wneud y mwyaf o'r adnoddau presennol ynghyd ag ymchwilio i'r gallu i dynnu ar adnoddau ychwanegol mewn modd hyblyg yn ôl yr angen.

Mae'r Cynllun Busnes yn cynnwys amrywiaeth eang o fesurau gwella sydd wedi'u nodi yn yr adran ganlynol ac sy'n crynhoi'r dull o fynd i'r afael â'r pwysau hyn. Fodd bynnag, cydnabyddir bod y

Gwasanaeth Cynllunio'n gweithredu o fewn amgylchedd sy'n newid yn gyson, lle y gall blaenoriaethau newydd ddod i'r amlwg yn gyflym.

Mae'r amrywiaeth o fesurau gwella sy'n cael eu datblygu fel a amlinellir yn Adran 3.5 yn dangos awydd gref i wella perfformiad yn yr amgylchedd hwn, ond nid oes modd tanbriso maint yr her na'r gallu i esgor ar ganlyniadau'n syth. Felly, mae pwyslais cryf ar roi mesurau rheoli perfformiad mwy effeithiol ar waith fel bod modd, gyda threigl amser, i'r lefel gywir o wybodaeth fanwl a chyfoes fod ar gael yn rhwydd fel sail i benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch adnoddau a blaenoriaethau llwyth gwaith.

3.5 Gwella'r Gwasanaeth

Mae'r broses Cynllunio Busnes ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio (Ebrill 2016) yn allweddol wrth helpu i gydbwyso blaenoriaethau llwyth gwaith bob blwyddyn ochr yn ochr â gofynion llwyth gwaith. Mae'n gosod fframwaith a ddefnyddir yn sylfaen i asesu perfformiad yn flynyddol ac ystyried y mesurau gwella pellach mwyaf priodol a champau eraill a ystyrir yn angenrheidiol i sicrhau y gall y Gwasanaeth Cynllunio gyflawni ei swyddogaethau yn llwyddiannus yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r Cynllun Busnes yn cynnwys gweledigaeth, yn pennu swyddogaethau craidd, yn amlinellu adnoddau a chwsmeriaid, yn tynnu sylw at brif gyflawniadau a pherfformiad cyffredinol gan gynnwys dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) ac yn cynnwys Blaenoriaethau Cynllunio a Gwella ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Bydd adolygiadau blynyddol yn nodi cynnydd a pherfformiad ar gyfer y dyfodol, a bydd canlyniadau yn erbyn dangosyddion a drafodir yn adrannau dilynol yr adroddiad hwn hefyd yn helpu i lywio proses flynyddol y Cynllun Busnes.

Mae'n galonogol gweld bod y mesurau gwella a sbardunwyd gan broses y Cynllun Busnes eisoes wedi arwain at welliannau mewn perfformiad. Fodd bynnag, mae hefyd angen bod yn ofalus gan ei bod yn anochel - o ganlyniad i'r adnoddau cyfyngedig y mae eu hangen i symud ymlaen gyda'r holl gamau gwella a nodwyd (hynny yw, gofynion llwyth gwaith trwm) - na fydd modd symud yr holl gamau yn eu blaen o fewn cyfnod byr o amser. Bydd y broses adolygu flynyddol yn ein helpu i fesur cynnydd a nodi camau gweithredu pellach sydd â'r flaenoriaeth uchaf.

Wrth ystyried y dyfodol, mae cryn ansicrwydd oherwydd yr heriau ariannol a allai effeithio ar ein perfformiad yn y blynyddoedd i ddod. Mae pwysau'n amlwg yn y lefelau staffio craidd presennol ac mae'n heriol sicrhau staff dros dro ychwanegol i ymateb yn hyblyg i ofynion y llwyth gwaith.

3.6 Fframwaith Perfformiad

Mae dadansoddi perfformiad yn erbyn y dangosyddion a nodir yn y Fframwaith Perfformiad wedi helpu i fod yn sail wybodaeth i'r amrywiaeth o fesurau sydd yn yr adran uchod. Hefyd, darperir sylw byr ar gyfer pob dangosydd yn yr Adran Fframwaith Perfformiad gan gynnwys gwybodaeth gyd-destunol fel rhan o'r ymateb.

Ar y cyfan, ystyrir bod y canlyniadau'n galonogol a dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- Yn gyson yn perfformio'n well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ym mhob un o'r saith ffactor a ddefnyddir yn yr Arolwg Boddhad Cwsmeriaid a ddangosir yn Nhabl 1;
- 84% o'r holl geisiadau yn cael eu pennu o fewn yr amserlenni gofynnol, sy'n well na'r targed ar gyfer Cymru;
- Cyfnodau byrrach i ddod i benderfyniad ar bob math o geisiadau o'i gymharu â'r llynedd;
- CDLI a fabwysiadwyd yn ddiweddar ar waith gyda rhaglen gynhwysfawr o Ganllawiau Cynllunio Ategol yn cael ei datblygu a'r AMB Cyntaf yn barod i'w gyflwyno ym mis Hydref 2017;
- Canran isel (3%) o benderfyniadau aelodau yn mynd yn groes i gyngor gan swyddogion a dim costau'n cael eu dyfarnu yn erbyn y Cyngor ar gyfer apeliadau;
- Defnydd cynyddol o'r wefan i gael gafael ar y gwasanaeth cynllunio ar-lein a gwe-ddarlledu'r Pwyllgor Cynllunio yn effeithlon;
- Cyrraedd sefyllfa ariannol lle mae'r incwm o ffioedd yn cyfateb yn fras i gostau cyflawni holl swyddogaethau'r Gwasanaeth Cynllunio
- Gwasanaeth Cynllunio i'w weld yn effeithlon wrth gymharu adnodd y Swyddogion Achos â nifer y ceisiadau y deuir i benderfyniad arnynt; a
- Pherfformiad gorfodi yn well o lawer na chyfartaledd Cymru.

Fel y crybwyllwyd mewn sawl adran uchod, bydd yn heriol parhau â'r gwelliannau perfformiad o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r swyddogion wedi dangos lefelau hynod uchel o ymroddiad, proffesiynoldeb, cymhelliant a hyblygrwydd i gyrraedd y sefyllfa bresennol. Fodd bynnag, gallai gofynion presennol y llwyth gwaith a'r ansicrwydd ariannol arwain at sefyllfa lle mae hyn yn amharu ar lefelau perfformiad.

BARN DEFNYDDWYR GWASANAETH

Yn 2017-18 cynhaliwyd arolwg boddhad cwsmeriaid gyda'r nod o asesu barn pobl a gafodd benderfyniad ar gais cynllunio yn ystod y flwyddyn.

Anfonwyd yr arolwg at 605 o bobl. Cyflwynodd 5% ohonynt ymateb llawn neu rannol. Cafwyd y rhan fwyaf o ymatebion (50%) gan asiantau lleol, gyda 6% gan aelodau'r cyhoedd. Cafodd cais cynllunio diweddaraf 0% o'r ymatebwyr ei wrthod.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o osodiadau am y gwasanaeth cynllunio. Rhoddwyd y dewisiadau isod o ran atebion iddynt:

- Cytuno'n gryf;
- Tueddu i gytuno;
- Heb gytuno nac anghytuno;
- Tueddu i anghytuno; ac
- Anghytuno'n gryf.


Dengys Tabl 1 ganran yr ymatebwyr a ddewisodd naill ai 'tueddu i gytuno' neu 'cytuno'n gryf' ar gyfer pob gosodiad am ein hawdurdod cynllunio ni a Chymru.

Tabl 1: Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â phob gosodiad, 2017-18

Ymatebwyr a gytunodd â'r canlynol:	% ACLI Caerdydd	% Cymru
Bod yr ACLI yn gorfodi eu rheolau cynllunio yn deg ac yn gyson	69	55
Bod yr ACLI yn rhoi cyngor da i'w helpu i wneud cais llwyddiannus	81	60
Bod yr ACLI yn rhoi help trwy'r amser, gan gynnwys gydag amodau	69	52
Bod yr ACLI yn ymateb yn brydlon pan oedd ganddynt gwestiynau	72	62
Bod eu cais wedi cael gwrandawriad	81	60
Eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu cais	63	52
Eu bod yn fodlon yn gyffredinol ar sut deliodd yr ACLI â'u cais	84	63

Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr ddewis tair nodwedd o'r gwasanaeth cynllunio o restr a fyddai, yn eu barn hwy, yn eu helpu fwyaf i sicrhau datblygiadau llwyddiannus. Mae Ffigwr 1 yn dangos canran yr ymatebwyr a ddewisodd pob nodwedd fel un o'u tri dewis.

Ffigwr 1: Nodweddion gwasanaeth cynllunio da, ACLI Caerdydd, 2017-18



Roedd y canlynol ymysg y sylwadau a gafwyd:

- “Penderfyniadau da, clir – yr hyn roedd ei angen i ymateb i’r gofynion.”
- “Yn fodlon iawn ar y gwasanaeth.”
- “Yn fy nghais diweddaraf roeddwn yn gallu cael trafodaeth â’r Swyddog Achos cyn penderfynu a oedd yn ymwneud â rhai ymholiadau oedd gennyf am y cais a oedd yn fuddiol wrth sicrhau canlyniad cadarnhaol. Wedi dweud hyn, cefais estyniad amser ar gyfer fy nghais nad oeddwn yn ymwybodol ohono nes i mi dderbyn llythyr. Byddwn i wedi gwerthfawrogi rhybudd ymlaen llaw o hyn trwy drafodaeth agored â’r Swyddog Achos.”

EIN PERFFORMIAD 2017-18

Mae'r adran hon yn nodi manylion ein perfformiad yn 2017-18. Mae'n ystyried dangosyddion y Fframwaith Perfformiad Cynllunio a data arall sydd ar gael i helpu i greu darlun cynhwysfawr o berfformiad. Lle y bo'n briodol rydyn ni'n gwneud cymariaethau rhwng ein perfformiad ni a pherfformiad Cymru gyfan.

Mae perfformiad yn cael ei ddadansoddi ar draws y pum agwedd allweddol ar y gwasanaeth cynllunio fel y'i nodir yn y Fframwaith Perfformiad Cynllunio:

- Creu cynllun;
- Effeithlonrwydd;
- Ansawdd;
- Ymgysylltu; a
- Gorfodi.

Creu cynllun


Ar 31 Mawrth 2018, roeddem ni'n un o 22 ACLI oedd â chynllun datblygu cyfredol ar waith.

Yn ystod cyfnod yr APB nodwyd gwerth 3.6 blynedd o gyflenwad tir tai wedi'i nodi, sy'n golygu ein bod ni'n un o'r 18 ACLI yng Nghymru heb y cyflenwad gofynnol o 5 mlynedd.

Effeithlonrwydd

Yn 2017-18 gwnaethom benderfynu ar 2,636 o geisiadau cynllunio, gyda phob un yn cymryd 66 diwrnod (9 wythnos) ar gyfartaledd. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 81 diwrnod (12 wythnos) ledled Cymru. Mae ffigur 2 yn dangos yr amser cyfartalog a dreulir gan bob ACLI i benderfynu ar gais yn ystod y flwyddyn.


Ffigur 2: Amser a gymerwyd ar gyfartaledd (fesul diwrnodau) i benderfynu ynghylch pob cais, 2017-18



Penderfynwyd ar 91% o geisiadau cynllunio o fewn yr amserlenni gofynnol. Roedd hyn yn cymharu â 89% ar draws Cymru a ni oedd un o'r 22 ACLIau a fodlonodd y targed o 80%.


Mae Ffigur 3 yn dangos canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlen ofynnol ar draws y pedwar prif fath o gais i'n ACLI a Chymru. Mae'n dangos y penderfynom ar 95% o geisiadau deiliaid tai o fewn yr amserlen ofynnol. Penderfynom hefyd ar 84% o geisiadau Caniatâd am Adeilad Rhestredig o fewn yr amserlen ofynnol.

Ffigur 3: Canran y ceisiadau cynllunio (fesul math) y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol, 2017-18



Rhwng 2016-17 a 2017-18, fel mae Ffigur 4 yn dangos y cynyddodd canran y ceisiadau cynllunio y penderfynom arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol o 84%. Bu cynnydd hefyd dros Gymru gyfan eleni.

Ffigur 4: Canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol




Dros yr un cyfnod:

- Gostyngodd nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gennym;
- Gostyngodd nifer y ceisiadau y daethom i benderfyniad arnynt;
- Gostyngodd nifer y ceisiadau a gymeradwywyd gennym.

Ceisiadau mawr

Penderfynom ar 71 o geisiadau cynllunio yn 2017-18 – roedd 3% (2 gais) yn amodol ar AEA. Cymerodd 170 diwrnod (24 wythnos) ar gyfartaledd i ddod i benderfyniad ar bob cais (gan gynnwys y rhai a oedd yn amodol ar AEA). Fel mae Ffigur 5 yn ei ddangos, roedd hyn yn hirach na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 240 diwrnod (34 wythnos).


Ffigur 5: Yr amser cyfartalog (diwrnodau) a dreuliyd yn dod i benderfyniad ar gais mawr, 2017-18



Penderfynwyd ar 75% o'r ceisiadau mawr hyn o fewn yr amserlenni gofynnol o gymharu â 69% ledled Cymru.

Mae Ffigur 6 yn dangos canran y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol, fesul math y cais mawr. Penderfynwyd ar 13% o'n ceisiadau mawr 'safonol', h.y. y rheiny nad oedd angen AEA arnynt, o fewn yr amserlenni gofynnol yn ystod y flwyddyn.

Ffigur 6: Canran y ceisiadau mawr (fesul math) y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol yn ystod y flwyddyn, 2017-18




Yn ogystal, penderfynom ar 43 cais mawr oedd yn amodol ar CPA o fewn yr amserlenni gofynnol yn ystod y flwyddyn.

Ers 2016-17, cynyddodd canran y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol o 31%. Yn yr un modd, cynyddodd nifer y ceisiadau mawr a gostyngodd nifer y ceisiadau sy'n amodol ar AEA y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn.

Mae Ffigur 7 yn dangos tuedd o ran canran y ceisiadau cynllunio mawr y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol yn y blynyddoedd diwethaf a sut mae hyn yn cymharu â Chymru.

Ffigur 7: Canran y ceisiadau cynllunio mawr y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol



Dros yr un cyfnod:

- Cynyddodd canran y ceisiadau bach y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol o 87% i 92%;
- Cynyddodd canran y ceisiadau deiliaid tai y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol o 91% i 95%; a
- Chynyddodd canran y ceisiadau eraill y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol o 82% i 89%.


Ansawdd

Yn 2017-18, gwnaeth ein Pwyllgor Cynllunio 97 o benderfyniadau ar geisiadau cynllunio, sef 4% o'r holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt. Ledled Cymru, penderfynwyd ar 7% o'r holl geisiadau cynllunio gan bwyllgor cynllunio.

Aeth 4% o'r penderfyniadau hyn a wnaed gan aelodau yn erbyn cyngor swyddogion. Roedd hyn yn cymharu â 9% o'r penderfyniadau a wnaed gan aelodau ledled Cymru. Mae hyn yn cyfateb i 0.2% o'r holl benderfyniadau ar geisiadau cynllunio a aeth yn groes i gyngor swyddogion; 0.6% ledled Cymru.

Yn 2017-18 cawsom 108 o apeliadau yn erbyn ein penderfyniadau cynllunio, sy'n cyfateb i 4 apêl fesul 100 o geisiadau. Y gymhareb uchaf yng Nghymru o ran apeliadau i geisiadau oedd hon. Mae Ffigur 8 yn dangos bod nifer yr apeliadau a gafwyd wedi newid ers 2016-17 a sut mae hyn yn cymharu â Chymru gyfan.


Ffigur 8: Nifer yr apeliadau a gafwyd fesul 100 cais cynllunio



Dros yr un cyfnod gostyngodd canran y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd o 83% i 79%.

O'r 69 o apeliadau y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn, gwrthodwyd 81% ohonynt. Fel mae Ffigur 9 yn ei ddangos, hon oedd y pumed canran uchaf o ran apeliadau a wrthodwyd yng Nghymru ac rodden ni'n un o 10 ACLIau a gyrhaeddodd y targed o 66%.

Ffigur 9: Canran yr apeliadau a wrthodwyd, 2017-18



Yn ystod 2017-18 ni chafodd unrhyw geisiadau costau mewn perthynas ag apêl adran 78 eu cynnal.

Ymgysylltu

Rydyn ni'n:

- un o 24 ACLlau a ganiataodd i aelodau o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio; ac yn
- un o 21 ACLlau oedd â chofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio.

Fel mae Tabl 2 yn ei ddangos, cytunodd 81% o'r ymatebwyr i arolwg boddhad cwsmeriaid 2017-18 fod yr ACLI wedi rhoi cyngor da iddynt i'w helpu i wneud cais llwyddiannus.

Tabl 2: Adborth o arolwg boddhad cwsmeriaid 2017-18


Ymatebwyr a gytunodd â'r canlynol:	% ACLI Caerdydd	% Cymru
Bod yr ACLI yn rhoi cyngor da i'w helpu i wneud cais llwyddiannus	81	60
Bod eu cais wedi cael gwrandawriad	81	60

Gorfodi

Yn 2017-18 ymchwiliom i 324 o achosion gorfodi, gan gyfateb i 0.9 fesul 1,000 o'r boblogaeth. Hon oedd yr ail gyfradd isaf yng Nghymru.

Dros yr un cyfnod, gwnaethom ymchwilio i 93% o'r achosion gorfodi hyn o fewn 84 diwrnod. Ledled Cymru, ymchwiliwyd i 81% o fewn 84 o ddiwrnodau. Mae Ffigur 10 yn dangos canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod ar draws pob ACLI yng Nghymru.

Ffigur 10: Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod, 2017-18



Yr amser cyfartalog a gymerwyd i gyflawni camau gorfodi cadarnhaol oedd 83 diwrnod.

ATODIAD A – FFRAMWAITH PERFFORMIAD

TROSOLWG

MESUR	DA	GWEDDO L	GWELLA
Creu cynllun			
A oes Cynllun Datblygu cyfredol ar gael sydd o fewn cyfnod y cynllun?	Oes		Nac oes
Wrth baratoi'r CDLI, y gwriad oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflwyno gwreiddiol, mewn misoedd	<12	13-17	18+
Adroddiadau Monitro Blynyddol yn cael eu cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLI	Ydynt		Nac ydynt
Cyflenwad tir yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer tai, mewn blynyddoedd	>5		<5
Effeithlonrwydd			
Canran y ceisiadau "mawr" y penderfynwyd arnynt o fewn yr cyfnodau gofynnol	>60	50-59.9	<50
Amser a gymerwyd ar gyfartaledd i benderfynu ynghylch ceisiadau "mawr" mewn diwrnodau	Heb ei osod	Heb ei osod	Heb ei osod
Canran yr holl geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn yr cyfnodau gofynnol	>80	70-79.9	<70
Amser a gymerwyd ar gyfartaledd i benderfynu ar bob cais mewn diwrnodau	<67	67-111	112+
Canran yr holl geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn yr amser angenrheidiol	Heb ei osod	Heb ei osod	Heb ei osod
Ansawdd			
Canran y penderfyniadau a wnaed gan aelodau yn groes i gyngor swyddogion	<5	5-9	9+
Canran yr apeliadau a wrthodwyd	>66	55-65.9	<55
Ceisiadau am gostau apêl Adran 78 a gadarnhawyd yn y cyfnod	0	1	2+

CYFARTALEDD CYMRU	ACLI Caerdydd Y LLYNEDD	ACLI Caerdydd ELENİ
Oes	Oes	Oes
67	Dd/b	Dd/b
Ydynt	Dd/b	Dd/b
7 o 25	3.8	3.6
67.4	31	75
240.1	338	170
88.5	84	91
80.7	70	66
65.4	-	84
8.6	3	4
62.6	60	81
0	0	0

MESUR	DA	GWEDDOL	GWELLA
adrodd			
Ymgysylltu			
A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?	Ydy		Nac ydy
A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd?	Oes		Nac oes
A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio, y gall aelodau'r cyhoedd gael mynediad iddi i ddilyn hynt ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?	Oes	Rhannol	Nac oes
Gorfodi			
Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt (dod i benderfyniad ynghylch a dorrwyd rheolau cynllunio, ac os felly, a gawsant eu datrys, p'un a oedd angen camau gorfodi neu beidio) o fewn 84 diwrnod	>80	70-79.9	<70
Amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gymryd camau gorfodi	Heb ei osod	Heb ei osod	Heb ei osod

CYFARTALEDD CYMRU	ACLI Caerdydd Y LLYNEDD	ACLI Caerdydd ELENÍ
Ydy	Ydy	Ydy
Oes	Oes	Oes
Oes	Oes	Oes
80.6	100	93
184.6	143	83

ADRAN 1 – CREU CYNLLUN

Dangosydd	01. A oes Cynllun Datblygu cyfredol ar gael sydd o fewn cyfnod y cynllun?	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Mae cynllun datblygu (CDLI neu CDU) ar gael ac o fewn cyfnod y cynllun	Dd/b	Nid oes cynllun datblygu ar gael (gan gynnwys lle daeth y cynllun i ben)

Perfformiad yr awdurdod	Oes
Mabwysiadwyd y CDLI ym mis Ionawr 2016. Caiff Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf ei gyflwyno ym mis Hydref 2018.	

Dangosydd	02. Wrth baratoi'r CDLI, y gwyrriad oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflwyno gwreiddiol, mewn misoedd	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Eir ymlaen â'r CDLI o fewn 12 mis o'r dyddiadau a nodwyd yn y Cynllun Cyflwyno gwreiddiol	Eir ymlaen â'r CDLI rhwng 12 a 18 mis o'r dyddiadau a nodwyd yn y Cynllun Cyflwyno gwreiddiol	Eir ymlaen â'r CDLI fwy na 18 mis yn hwyrach na'r dyddiadau a nodwyd yn y Cynllun Cyflwyno gwreiddiol

Perfformiad yr awdurdod	Dd/b
Dd/b – CDLI wedi'i fabwysiadu erbyn hyn	

Dangosydd	03. Adroddiadau Monitro Blynyddol yn cael eu llunio yn dilyn mabwysiadu'r CDLI	
“Da”		“Angen gwelliant”
Disgwylir i AMB fod yn barod, ac mae wedi ei baratoi		Disgwylir i AMB fod yn barod, ond nid yw wedi ei baratoi

Perfformiad yr awdurdod	Dd/b
Ar adeg ysgrifennu, cymeradwywyd AMB cyntaf gan y Cabinet ym mis Medi 2018 a chaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar ôl iddo gael ei gyfieithu i'r Gymraeg ym mis Hydref 2018.	

Dangosydd	04. Cyflenwad tir yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer tai, mewn
------------------	---

	blynyddoedd	
“Da”		“Angen gwelliant”
Mae gan yr awdurdod gyflenwad tir ar gyfer tai o fwy na 5 mlynedd		Mae gan yr awdurdod gyflenwad tir ar gyfer tai o lai na 5 mlynedd

Perfformiad yr awdurdod	3.6
<p>Mae'r Cyngor wedi ymateb i'r ymgynghoriad presennol ar TAN1 Darparu Tai sy'n cydnabod y cymhlethdodau a'r heriau sy'n ymwneud â sut caiff cyflenwad tai ei asesu a sut caiff cartrefi newydd eu darparu. Gobeithir y bydd y broses ymgynghori'n arwain at sefyllfa lle:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae llawer mwy o drylwyredd o ran nodi gofynion tai priodol • Ymdrinnir yn llawnach ym mhob CDLI â'r materion allweddol, sef hyfywedd a'r gallu i gyflawni • Gwneir gwelliannau i'r dull o fonitro galw, cyflenwad a chyflawni • Rhoddir cydnabyddiaeth lawn i rôl allweddol CDLlau cyfredol wrth ddiwallu anghenion sy'n seiliedig ar dystiolaeth <p>Gan ddychwelyd i elfennau penodol y dangosydd hwn, nodir y caiff y ffigur cyflenwad ei gyfrifo'n llwyr trwy'r fethodoleg weddilliol anhyblyg. Mewn realiti, gallai mwy o dir fod ar gael i'w ddatblygu nag y mae'r ffigur yn ei awgrymu. Yn hyn o beth, mae gan Gaerdydd gronfa dir o dros 26,000 o gartrefi ac nid ystyrir bod y ffigur cyflenwad 3.6 blynedd cyfredol ar gyfer 2018 (11,628 o gartrefi) trwy CAATT yn adlewyrchu swm llawn y cyflenwad tir tai yn gywir. Yn wir, gellid dadlau y bu rhagosodiad CAATT sy'n seiliedig yn llwyr ar y fethodoleg weddilliol, sydd hithau felly'n seiliedig ar ragfynegiadau sydd o bosib wedi cael eu disodli gan ragfynegiadau ac amcangyfrifon canol blwyddyn dilynol, yn ddiffygiol yn gynhenid ers y cychwyn cyntaf.</p> <p>Mae rhesymau eraill pam nad ystyrir bod y fethodoleg anhyblyg yn cynrychioli'r wir sefyllfa yng Nghaerdydd. Er enghraifft, mae niferoedd uchel y myfyrwyr yn cyfrannu at y ffigur cyflenwad, ond nid yw'r cydsyniadau diweddar a roddwyd ar gyfer llety preifat i fyfyrwyr yn cyfrannu at y cyflenwad oherwydd y ffordd mae monitro'n seiliedig ar gyfyngiadau Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd. Mae enghraifft arall sy'n nodwedd neilltuol o Gaerdydd yw'r oedi tymor byr wrth gyflawni'r cynllun ar ôl ei fabwysiadu ar safleoedd strategol y CDLI. Mae rhesymau dros oedi yn amrywio o safle i safle, ond yn gyffredinol mae'r dyddiadau dechrau wedi llithro ers mabwysiadu'r cynllun. Felly, mae'r Cyngor yn ystyried bod yr oedi yma o leiaf yn rhannol gyfrifol am y diffyg cyflenwad tir tai 5 mlynedd yng Nghaerdydd, ac mewn gwirionedd nid yw Caerdydd yn wynebu problem cyflenwad, ond her o ran darpariaeth lle nad yw'r sector datblygu yn darparu'r cyfraddau a ragwelwyd o'r blaen.</p> <p>Dylid nodi nad yw diffyg cyflenwad 5 mlynedd yng Nghaerdydd yn eithriad o'i ystyried o fewn cyd-destun Cymru gyfan; mae llawer o ACLlau wedi profi sefyllfaoedd tebyg o ran cyflenwad tir, ar ôl mabwysiadu CDLI. Er yr ymddengys fod hyfywedd yn ffactor allweddol drwy'r rhan fwyaf o Gymru, mae ffactorau sylfaenol eraill yn amlwg yng Nghaerdydd, fel a ddisgrifir uchod.</p>	

ADRAN 2 - EFFEITHLONRWYDD

Dangosydd	05. Canran y ceisiadau "mawr" y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlen ofynnol	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwelliant"
Penderfynir ynghylch mwy na 60% o geisiadau o fewn y cyfnod amser statudol	Penderfynir ynghylch rhwng 50% a 60% o geisiadau o fewn y cyfnod amser statudol	Penderfynir ynghylch llai na 50% o geisiadau o fewn y cyfnod amser statudol

Perfformiad yr awdurdod	75
<p>Mae cyfradd gyflawni 75% yn uwch o lawer na'r targed 60% ar gyfer perfformiad "da" ac yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 69%. Trwy nifer o fentrau gwella perfformiad dros y blynyddoedd diwethaf, mae lefel y perfformiad wedi gwella'n sylweddol hefyd o 8% yn 2014/15, 27% yn 2015/16 a 31% yn 2016/17.</p> <p>O ran cyd-destun Cymru gyfan, mae Caerdydd yn prosesu nifer mawr o geisiadau mawr cymhleth. Ceisiadau Mae llawer iawn o'r ceisiadau hyn yn hynod gymhleth, ac yn aml yn gorfod dilyn Rheoliadau AEA ac yn gofyn am lofnodi Cytundebau Adran 106 hirfaith sydd, mewn rhai achosion, yn gofyn am drafodaethau helaeth rhwng y Cyngor, tirlfeddianwyr a datblygwyr. Yn y cyd-destun hwn, ystyrir bod y perfformiad 75% yn gyflawniad rhagorol.</p>	

Dangosydd	06. Amser a gymerwyd ar gyfartaledd i benderfynu ynghylch ceisiadau "mawr" mewn diwrnodau	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwelliant"
Targed i'w feincnodi	Targed i'w feincnodi	Targed i'w feincnodi

Perfformiad yr awdurdod	170
<p>Mae'r cyfnod cyfartalog o 170 diwrnod i benderfynu ynghylch ceisiadau mawr yn berfformiad llawer cynt na chyfartaledd Cymru gyfan o 240 diwrnod i benderfynu ynghylch ceisiadau mawr. Trwy nifer o fentrau gwella perfformiad dros y blynyddoedd diwethaf, mae lefel y perfformiad wedi gwella'n sylweddol hefyd o 266 diwrnod yn 2015/16 a 338 diwrnod yn 2016/17.</p> <p>Fodd bynnag, dylid nodi y gall ceisiadau mawr arbennig o gymhleth effeithio'n sylweddol ar y dangosydd hwn ac, yng nghyd-destun Cymru gyfan, mae Caerdydd yn prosesu nifer mawr o geisiadau mawr cymhleth. Mae llawer o'r ceisiadau hyn yn eithriadol o gymhleth ac yn aml yn gorfod dilyn Rheoliadau AEA ac yn gofyn am lofnodi Cytundebau Adran 106 hirfaith sydd, mewn rhai achosion, yn gofyn am drafodaethau helaeth rhwng y Cyngor, tirlfeddianwyr a datblygwyr. Mae hefyd yn cymryd amser i drafod cytundebau Adran 106 sydd wedi dod â channoedd o filoedd o bunnoedd i'r ddinas. Gallai fod angen asesiadau dichonoldeb ychwanegol ar y rhain hefyd.</p> <p>Yn y cyd-destun hwn, ystyrir bod y perfformiad 170 diwrnod yn gyflawniad rhagorol.</p>	

Dangosydd	07. Canran yr holl geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlen ofynnol	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Penderfynir ynghylch mwy na 80% o geisiadau o fewn y cyfnod amser statudol	Penderfynir ynghylch rhwng 70% a 80% o geisiadau o fewn y cyfnod amser statudol	Penderfynir ynghylch llai na 70% o geisiadau o fewn y cyfnod amser statudol

Perfformiad yr awdurdod	91
<p>Mae cyfradd gyflawni 91% yn uwch o lawer na'r targed 80% ar gyfer perfformiad “da” ac yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 89%. Trwy nifer o fentrau gwella perfformiad dros y blynyddoedd diwethaf, mae lefel y perfformiad wedi gwella'n sylweddol hefyd o 65% yn 2014/15, 75% yn 2015/16 a 84% yn 2016/17.</p> <p>O ystyried y gwnaeth y gwasanaeth brosesu'r nifer uchaf o geisiadau yng Nghymru (2,636), ystyrir bod hyn yn gyflawniad rhagorol.</p>	

Dangosydd	08. Amser a gymerwyd ar gyfartaledd (mewn diwrnodau) i benderfynu ar bob cais	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Llai na 67 diwrnod	Rhwng 67 a 111 diwrnod	112 diwrnod neu fwy

Perfformiad yr awdurdod	66
<p>Mae cyfradd gyflawni 66 diwrnod yn cyflawni'r targed 67 diwrnod ar gyfer perfformiad “da” ac yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 81 diwrnod. Trwy nifer o fentrau gwella perfformiad dros y blynyddoedd diwethaf, mae lefel y perfformiad wedi gwella'n sylweddol hefyd o 79 diwrnod yn 2015/16 a 70 diwrnod yn 2016/17.</p> <p>Yn ogystal, o ran cyd-destun, mae'r Cyngor yn mabwysiadu dull o geisio sicrhau ansawdd derbyniol mewn ceisiadau yn hytrach na gwrthod ceisiadau a allai fod ond yn un addasiad o fod yn dderbyniol. Ystyrir hyn yn ymagwedd ddilys o hyd ond gallai effeithio ar yr amser cyfartalog a gymerir i benderfynu ynghylch ceisiadau.</p>	

Dangosydd	08a. Canran yr holl geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlen ofynnol	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Targed i'w feincnodi	Targed i'w feincnodi	Targed i'w feincnodi

Perfformiad yr awdurdod	84
<p>Ystyrir bod hyn yn lefel dda o ran perfformiad ac yn adlewyrchu natur gymhleth y gwaith sydd ynghlwm yn aml.</p>	

ADRAN 3 - ANSAWDD

Dangosydd	09. Canran y penderfyniadau a wnaed gan aelodau yn groes i gyngor swyddogion	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Llai na 5% o benderfyniadau	Rhwng 5% a 9% o benderfyniadau	9% neu fwy o benderfyniadau

Perfformiad yr awdurdod	4
<p>Ystyrir bod hyn yn gyflawniad rhagorol ac yn ymwneud â'r 97 o geisiadau a ystyriwyd gan y Pwyllgor Cynllunio yn ystod y flwyddyn. Mae'n is o lawer na chyfartaledd Cymru, sef 9%, ac yn cael ei ystyried yn rhan o'r categori perfformiad 'da'.</p> <p>Mae aelodau'r Pwyllgor Cynllunio wedi cael hyfforddiant priodol ac mae busnes y Pwyllgor Cynllunio yn dilyn y protocolau sydd ar waith yn gyson. Mae Swyddogion Achos yn adrodd i Aelodau'r Pwyllgor gyda chymorth cynlluniau a ffotograffau a ddangosir ar sgriniau.</p> <p>Gall Aelodau'r Pwyllgor ofyn i ymweld â safle cyn ystyried cynigion a all helpu i feithrin dealltwriaeth o safle/cynnig ond gall hyn hefyd achosi oedi o ran penderfynu ar y cais oherwydd y byddai'r cynnig yn cael ei ystyried yn y cyfarfod nesaf (4 wythnos yn ddiweddarach fel arfer).</p> <p>At hyn, dylid nodi y penderfynir ynghylch cannoedd o geisiadau bob blwyddyn sy'n amodol i rôl ddirprwyedig Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio. O ystyried llwyth gwaith trwm Caerdydd, mae'r Cadeirydd yn trafod achosion/materion Rheoli Datblygu manwl â staff bob wythnos. Felly mae'r Cadeirydd yn dod â'r profiad gwaith manwl hwn gerbron y Pwyllgor Cynllunio sy'n gallu helpu i gyfeirio trafodaethau yn y pwyllgor a sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar resymau cynlluniau cadarn.</p>	

Dangosydd	10. Canran yr apeliadau a wrthodwyd	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Mae mwy na 66% (dwy ran o dair) o benderfyniadau cynllunio wedi eu hamddiffyn yn llwyddiannus ar apêl	Mae rhwng 55% a 66% o benderfyniadau cynllunio wedi eu hamddiffyn yn llwyddiannus ar apêl	Mae llai na 55% o benderfyniadau cynllunio wedi eu hamddiffyn yn llwyddiannus ar apêl

Perfformiad yr awdurdod	81
<p>Ystyrir bod hyn yn ganlyniad rhagorol, yn is o lawer na chyfartaledd Cymru ac yn rhan o'r categori perfformiad 'da'. Mae hyn yn arbennig o gymeradwy o ystyried bod Caerdydd wedi prosesu 108 o apeliadau, sef y gymhareb uchaf o ran apeliadau i geisiadau yng Nghymru ac yn gynydd sylweddol yn nifer yr apeliadau a dderbyniwyd yn y blynyddoedd cyn hynny. Mae hyn yn cyfateb i lefel perfformiad sy'n uwch na'r adrodd dros y 3 blynedd flaenorol lle roedd y ganran yn amrywio o 60% i 67%.</p>	

Dangosydd	11. Ceisiadau am gostau apêl Adran 78 a gadarnhawyd yn y cyfnod adrodd
------------------	---

"Da"	"Gweddol"	"Angen gwelliant"
Ni ddyfarnwyd costau yn erbyn yr awdurdod ar apêl	Dyfarnwyd costau yn erbyn yr awdurdod mewn un achos apêl	Dyfarnwyd costau yn erbyn yr awdurdod mewn dau neu fwy o achosion apêl

Perfformiad yr awdurdod	0
Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am gostau yn ystod 2017/18 sy'n rhoi perfformiad yn y categori 'da'.	

ADRAN 4 – YMGYSYLLTU

Dangosydd	12. A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?	
"Da"		"Angen gwelliant"
Gall aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio		Ni all aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio

Perfformiad yr awdurdod	Ydy
Mae Protocol y Pwyllgor Cynllunio yn gosod trefniadau sy'n llywodraethu'r modd y gall y cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio a mynychu ymweliadau safle a wneir gan y Pwyllgor.	

Dangosydd	13. A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd?	
"Da"		"Angen gwelliant"
Gall aelodau'r cyhoedd geisio cyngor gan swyddog cynllunio ar ddyletswydd		Nid oes swyddog cynllunio ar ddyletswydd ar gael

Perfformiad yr awdurdod	Oes
Mae cyngor i'r cyhoedd ar gael gan staff Derbynfa Neuadd y Sir, Swyddogion o'r Adran Bwyllgorau a hefyd Swyddogion Cynllunio.	

Dangosydd	14. A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio, y gall aelodau'r cyhoedd gael mynediad iddi i ddilyn hynt ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwelliant"
Mae pob dogfen ar gael ar-lein	Dim ond manylion y cais cynllunio sydd ar gael ar-lein, rhaid ceisio dogfennau eraill yn uniongyrchol	Ni chyhoeddir unrhyw wybodaeth am geisiadau cynllunio ar-lein

Perfformiad yr awdurdod	Oes
Mae tudalennau Cynllunio gwefan y Cyngor yn cynnwys manylion cyfoes am bob cais cynllunio byw a gellir olrhain hynt ceisiadau unigol ynghyd â'r gallu i weld ymatebion i ymgynghoriadau. Caiff aelodau'r cyhoedd wybod am y cyfleusterau hyn mewn llythyrau ymgynghori a anfonir allan i roi gwybod i'r cyhoedd am geisiadau newydd.	

ADRAN 5 – GORFODI

Dangosydd	15. Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt (dod i benderfyniad ynghylch a dorwyd rheolau cynllunio, ac os felly, a gawsant eu datrys, p'un a oedd angen camau gorfodi neu beidio) o fewn 84 diwrnod	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Ymchwilir i fwy nag 80% o achosion gorfodi mewn 84 diwrnod	Ymchwilir i rhwng 70% ac 80% o achosion gorfodi mewn 84 diwrnod	Ymchwilir i lai na 70% o achosion gorfodi mewn 84 diwrnod

Perfformiad yr awdurdod	93
<p>O gyfanswm o 324 o achosion gorfodi, ymchwiliwyd i 93% o fewn 84 diwrnod sy'n rhoi perfformiad yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 81%, ac yn y categori “da”. Mae nifer yr achosion wedi gostwng o'r flwyddyn flaenorol ond mae'n dal i greu llwyth achosion trwm ac, yn aml, gymhleth.</p>	

Dangosydd	16. Amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gymryd camau gorfodi	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwelliant”
Targed i'w feincnodi	Targed i'w feincnodi	Targed i'w feincnodi

Perfformiad yr awdurdod	83
<p>Mae'r data hwn yn dangos ei bod wedi cymryd 83 diwrnod mewn achosion lle y penderfynwyd 'cymryd camau gorfodi'. Mae hyn yn welliant sylweddol ar flynyddoedd blaenorol sy'n dangos rhwng 114 a 148 diwrnod.</p>	

ADRAN 6 – DANGOSYDDION DATBLYGU CYNALIADWY

Diben y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yw mesur y cyfraniad mae'r system gynllunio yn ei wneud at ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Caiff y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn amcanion cynaliadwyaeth cynllunio cenedlaethol, sydd wedi eu gosod ym Mholisi Cynllunio Cymru, a gellir eu defnyddio i ddangos i'n rhanddeiliaid rôl a chwmpas y system gynllunio o ran cyflawni amcanion ehangach. Bydd y wybodaeth yn ddefnyddiol hefyd i awdurdodau cynllunio lleol ddeall mwy am ddeilliannau'r system gynllunio a bydd yn helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol.

Adroddiadau'r Awdurdod	Data a gasglwyd ar gyfer pob adroddiad

Dangosydd	DC1. Yr arwynebedd llawr (metrau sgwâr) lle y rhoddwyd ac y gwrthodwyd caniatâd cynllunio am ddatblygiad economaidd newydd ar safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd yn ystod y flwyddyn.
------------------	---

Wedi'i roi (metrau sgwâr)	
Data'r awdurdod	60,271

Wedi'i wrthod (metrau sgwâr)	
Data'r awdurdod	0

Dangosydd	DC2. Caniatâd cynllunio a roddwyd am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel yn ystod y flwyddyn.
------------------	---

Caniatâd wedi'i roi (nifer y ceisiadau)	
Data'r awdurdod	6

Caniatâd wedi'i roi (cynhyrchu ynni MW)	
Data'r awdurdod	0

Dangosydd	DC3. Nifer yr aneddiadau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn.
------------------	--

Tai marchnad (nifer yr unedau)	
Data'r awdurdod	3,423

Tai fforddiadwy (nifer yr unedau)	
--	--

Data'r awdurdod	790
Dangosydd	DC4. Caniatâd cynllunio a roddwyd ac a wrthodwyd am ddatblygiadau mewn ardaloedd gorlifdir C1 ac C2 yn ystod y flwyddyn.

Nifer yr unedau preswyl (a hefyd hectarau o unedau dibreswyl) a FODLONODD bob prawf TAN 15 y RHODDWDYD caniatâd iddynt

Data'r awdurdod	346
-----------------	-----

Nifer yr unedau preswyl (a hefyd hectarau o unedau dibreswyl) a FODLONODD bob prawf TAN 15 y RHODDWDYD caniatâd iddynt

Data'r awdurdod	47
-----------------	----

Dangosydd	DC5. Arwynebedd tir (ha) lle rhoddwyd caniatâd cynllunio am ddatblygiad newydd ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol a thir glas yn ystod y flwyddyn.
-----------	---

Tir a ddatblygwyd eisoes (hectarau)

Data'r awdurdod	35
-----------------	----

Tir glas (hectarau)

Data'r awdurdod	152
-----------------	-----

Dangosydd	DC6. Arwynebedd mannau agored cyhoeddus (ha) a fyddai'n cael ei golli a'i ennill o ganlyniad i ganiatâd cynllunio a roddwyd yn ystod y chwarter.
-----------	--

Mannau agored a gollwyd (hectarau)

Data'r awdurdod	21
-----------------	----

Tir agored a enillwyd (hectarau)

Data'r awdurdod	18
-----------------	----

Dangosydd	DC7. Cyfanswm y cyfraniadau ariannol (£) y cytunwyd arnynt o ddatblygiadau newydd a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y chwarter ar gyfer darparu seilwaith cymunedol.
-----------	---

Enillwyd drwy gytundebau Adran 106 (£)

Data'r awdurdod	7,153,881
-----------------	-----------

Enillwyd drwy Ardoll Seilwaith Cymunedol (£)	
Data'r awdurdod	0